

# RHWYDWAITH ARDDANGOS

Mawrth – Mai 2018

## Sgôr RAG

■ Coch ■ Oren ■ Gwyrdd

**Gwyrdd** Prosiectau a digwyddiadau yn unol â'r targed

## Rhwydwaith Arddangos

Safle Arloesedd	8
Safle Arddangos	12
Safle Ffocws (Cyfanswm Cronnus)	90

## Digwyddiadau'r Rhwydwaith Arddangos


Mawrth – Mai 2018

Disgrifiad	Cyfanswm Digwyddiadau (Targed Blynyddol)	Cyfanswm Digwyddiadau (A Gynhaliwyd)
Digwyddiadau Safleoedd Arloesedd	32	6
Digwyddiadau Safleoedd Arddangos	36	9
Digwyddiadau Safleoedd Ffocws	54	12

**690** O BOBL WEDI MYNYCHU DIGWYDDIADAU'R RHWYDWAITH ARDDANGOS



Mae'r map isod yn dangos lleoliad daearyddol y safleoedd o fewn y Rhwydwaith Arddangos.



Cliciwch yma am fwy o fanylion yngl n â phrosiectau neu ddiwyddiadau ar ein rhwydwaith arddangos.

## Prosiectau ar fferm

### Canolbwyntio ar Broffilio Metabolig

Mae proffilio metabolig yn dechreg ddefnyddiol i wirio statws maetholion da byw ar adegau allweddol yn ystod y gylchred gynhyrchu. Mae nifer o brosiectau'n cael eu cynnal ar ffermydd y Rhwydwaith Arddangos i weld sut all y canlyniadau ddylanwadu ar benderfyniadau rheolaeth.

Cynhaliodd Safle Ffocws Sychpant brofion gwaed ar y gwartheg sych a gwelsant fod problemau egni o fewn eu diet. Ar ôl ymchwilio'n fanylach, awgrymwyd fod eu cymeriant Deunydd Sych (DM) yn rhy isel ar 9KG DM/dydd ac y dylent fod yn anelu at gymeriant o 12-15 KG/DM/dydd. Roedd y cyngor a roddwyd yn awgrymu y gellir sicrhau hyn drwy fwydo silwair o ansawdd uchel yn hytrach na chynyddu'r dwysfwd.

Cynhaliodd Safle Arddangos Aberbranddu brofion ar famogiaid dair wythnos cyn wyna ac roedd canlyniadau cymedr  $\beta$ -hydroxybutyrate ( $\beta$ -OHB) ac wrea-N yn dangos bod gofynion egni'r mamogiaid yn cael eu bodloni. Mewn grŵp o famogiaid teneuach a oedd yn cario gefeiliaid, roedd y gwerthoedd  $\beta$ -OHB yn uwch, gan awgrymu nad oedd eu gofynion egni'n cael eu bodloni. Gyda thair wythnos i fynd cyn wyna, cynyddwyd eu dyraniad silwair a rhoddwyd 300g/mamog o ddwysfwd




Profi gwaed yn Aberbranddu

yn hytrach na 250g/mamog. Dangosodd y profion hefyd fod lefelau albwmyn yn isel, yn enwedig yn y mamogiaid teneuach a oedd yn cario gefeiliaid, a allai fod o ganlyniad i broblem afiechyd presennol neu broblem arall dan yr wyneb. Anfonwyd 10 mamog wag am brawf post mortem a gwelwyd bod haint llyngyr yr iau yn bresennol. Gan weithredu ar y wybodaeth hon, aeth Irwel ati i drin y mamogiaid tenau gyda drensh a oedd yn lladd llyngyr yr iau aeddfed er mwyn lleihau unrhyw niwed pellach.

Er mwyn galluogi ffermwyr ledled Cymru i gael mynediad at yr wybodaeth ddefnyddiol hon, mae Cyswllt Ffermio wedi bod yn cynnig clinigau gyda milfeddygon. Mae mamogiaid a buchod llaeth wedi cael eu profi er mwyn gwirio a yw eu dogn yn sicrhau'r canlyniadau delfrydol. Pan fo problemau'n cael eu darganfod, mae modd addasu'r diet a fydd yn atal problemau pellach rhag codi os bydd anifeiliaid yn cael gormodedd neu ddim digon o fwyd.

### Canolbwyntio ar Reoli Glaswellt

Meistr ar Borfa – cyrsiau wedi'u teilwra ar gyfer cynhyrchwyr da byw i'r cynorthwyo i sicrhau'r cynhyrchiant gorau ac i wneud y defnydd gorau o'r glaswellt maen nhw'n ei dyfu.



Adborth gan fynychwyr:

"Bydd trosi mwy o badogau i system bori cylchdro yn flaenoriaeth gan ddefnyddio'r wybodaeth a'r hyder y mae'r cwrs hwn wedi ei roi i mi."

"Nid glaswellt yw pobeth. Byddwn yn cynllunio mwy ymlaen llaw o ran lleoliad ein cafnau dŵr."

## Prosiect Porfa Cymru

Mae 16 safle ar draws Cymru yn mesur porfa ac yn casglu data sydd i'w weld ar wefan Cyswllt Ffermio. Gall ffermwyr gael mynediad at y data hwn a'i ddefnyddio fel canllaw ar gyfer eu hardal leol trwy ddewis y safleoedd agosaf atyn nhw.

Er enghraifft, ar ddiwedd Mai roedd y safleoedd yn llwyddo i gyflawni'r cyfraddau twf canlynol:

Safle	Cyfradd Twf Dyddiol ar ddiwedd Mai 2018 (Kg DM/Ha)	Gorchudd Cyfartalog y Fferm (Kg DM/Ha)
Ruthin (fferm laeth)	98.1	2077
Llandeilo	48.7	2400
Y Fenni	45.2	2023

Bydd y ffermwyr sy'n mesur yn defnyddio'r data hwn i gynllunio eu dyraniad pori a chaeau silwair gan amlygu pwysigrwydd mesur glaswellt i sicrhau'r cynhyrchiant gorau posibl a gwneud y defnydd gorau o'r hyn sy'n cael ei dyfu.

## Pridd, Tail ac Arian

**2** DIGWYDDIAD

Cynhaliwyd gydag

**82** YN MYNYCHU

**Nod:** hybu rheolaeth pridd da a chynllunio rheoli maetholion

Roedd trafodaethau yn ystod y digwyddiadau'n cynnwys y canlynol:



Mae gwasanaethau ychwanegol a gynigir fel rhan o raglen Cyswllt Ffermio sy'n galluogi ffermwyr i wella eu rheolaeth tir glas yn cynnwys:



Adborth gan fynychwyr:

"Rwy'n teimlo'n fwy hyderus o ran gwybod beth mae'r pridd ei angen"

"Cefais fy syfrdanu pa mor werthfawr yw slyri o ran y gwerth ariannol"

"Roedd gen i ddealltwriaeth dda o'r pwnc eisoes ond mae bob amser werth diweddarau eich gwybodaeth"

"Rydw i wedi dysgu am bwysigrwydd pridd iach ar gyfer glaswelltir a thir â'r cynhyrchiol"

"Rydw i'n fwy ymwybodol o wahanol dechnegau rheolaeth er mwyn lleihau cywasgiad pridd"

"Mae samplu'r pridd a pH pridd yn bwysig"

"Canolbwyntiwyd ar yr elfennau sylfaenol"

## Canolbwyntio ar Gynhyrchu Dofednod

Mae safle Ffocws Genauhafod wedi bod yn edrych ar ddefnyddio technoleg robotig i wneud y gwaith yn rhwyddach ar eu huned dofednod a gwella amodau gwaith ar gyfer y staff. Yn y gorffennol, roedd disgwyl i staff godi pwysau o dros 10kg gan beri risg o anafu wrth droi'r corff a phlygu i'r ochr. Mae'r robot wedi gwaredu'r angen i staff godi pwysau dro ar ôl tro ac wedi gwella amodau gweithio'n gyffredinol.

Yn ogystal, mae'r canlyniadau wedi dangos y canlynol:

- Mae'r robot paledi wyau yn arbed 2.5 awr y dydd
- Ar gyfradd o £7.5 l yr awr, mae hyn yn arbediad dyddiol o £18.78 ac yn arbediad blyneddol o £6852



## Canolbwyntio ar Reoli Gwiddon Coch

Defnyddio EXZOLT® i reoli gwiddon coch mewn Unedau Dofednod

Mae gwiddon coch yn broblem economaidd a lles difrifol ar unedau dofednod. Bydd y prosiect Safle Ffocws ar Fferm Fenton Farm yn edrych ar ddefnyddio brechlyn i reoli'r gwiddon a bydd yn monitro'n rheolaidd er mwyn asesu lefelau haint.

Bydd y dangosyddion perfformiad allweddol isod yn cael eu mesur ar gyfer yr haid:



I ddysgu mwy am widdon coch, cliciwch yma ac ewch i dudalen 12.

## Cyfathrebu'r Canlyniadau

Mae cyfathrebu canlyniadau'r gwaith sy'n cael ei wneud ar y rhwydwaith arddangos yn hanfodol. Mae Cyswllt Ffermio yn defnyddio dulliau amrywiol i sicrhau bos cymaint o bobl â phosibl yn derbyn yr wybodaeth sy'n deillio o'r prosiectau, gan gynnwys:

- Erthyglau: 31 wedi'u creu – mae'r holl erthyglau ar y wefan, a gan ddibynnu ar y cynnwys, mae rhai'n cael eu rhannu gyda'r Farmers Guardian.
- Blogiau a Flogiau i gynnig diweddariadau o'r safleoedd – mae 9 wedi'u creu
- Cyfryngau Cymdeithasol  
Diweddariadau Facebook: 160  
Diweddariadau Twitter: 159
- Fideos 18
- Ymweliadau â'r wefan:  
Safleoedd Arloesedd: saesneg 241, cymraeg 80  
Safleoedd Arddangos: saesneg 593, cymraeg 92  
Safleoedd Ffocws: saesneg 1,351, cymraeg 474

